S4C

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

a baratowyd yn unol â
Deddf yr Iaith Gymraeg
1993

BWRDD
YR IAITH
GYMRAEG

WELSH
LANGUAGE
BOARD

CYNLLUN IAITH GYMRAEG S4C

a baratowyd yn unol â
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

[Derbyniodd y Cynllun hwn gymeradwyaeth lawn Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14(1) y Ddeddf ar 13 Mai, 1998]

DATGANIAD

Mae S4C fel corff cyhoeddus wedi mabwysiadu'r egwyddor, y bydd wrth ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd S4C yn gweithredu'r egwyddor honno wrth drafod â'r cyhoedd yng Nghymru. Nid yw'r cynllun fodd bynnag yn gymwys i gynnwys y gwasanaethau teledu a ddarperir gan S4C.

1. PRIF WEITHGAREDDAU S4C

1.1 Mae S4C fel corff cyhoeddus yn gweithredu o dan Ddeddfau Darlledu 1990 ac 1996 gyda'r prif amcanion o ddarparu gwasanaethau teledu analog o safon uchel yng Nghymru.

1.2 Bydd S4C yn darparu cyfleusterau priodol ar gyfer darlledu gwasanaeth estynedig ar deledu digidol yng Nghymru ac yn ei lawnsio cyn diwedd 1998 neu yn ddiweddarach os bydd dyddiad cychwyn gwasanaethau digidol daearol yn cael ei ohirio am resymau tu hwnt i'n rheolaeth.

1.3 Trwy S4C Masnachol, byddwn yn hyrwyddo ac yn datblygu mentrau masnachol amrywiol, yn eu plith SDN, gyda'r bwriad o greu elw maes o law i gyfoethogi'n gwasanaeth teledu yng Nghymru. Byddwn yn gweithredu trefn effeithiol er mwyn sicrhau gwahaniad eglur rhwng gwariant ar y gwasanaeth cyhoeddus a gwariant masnachol.

1.4 Fel rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, byddwn yn datblygu'r syniad o Goleg Digidol, mewn partneriaeth â BBC Cymru ac eraill.

1.5 Mae'r brif swyddfa yn Llanisien, Caerdydd gydag ail swyddfa yng Nghaernarfon. Bydd S4C, fodd bynnag, yn gweithredu drwy Gymru gyfan o dro i dro drwy ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo, arddangosfeydd, presenoldeb mewn eisteddfodau, sioeau amaethyddol a llawer amgylchiad arall sy'n berthnasol i'r Cymry fel cenedl. Gall rhai o'r gweithgareddau hyn fod dan ofal Adran Y Wasg Gorfforaethol, yr Adran Farchnata, neu fod yn ymweliadau gan rai o wynebau cyfarwydd S4C neu'n deithiau wedi eu trefnu i gyd-redeg â chyfresi.

1.6 Cyflawnir y gwaith o amserlennu'r rhaglenni, hysbysebion, is-deitlau, cyhoeddiadau a.y.b. yn y brif ganolfan yn Llanisien, cyn i'r gwasanaeth gyrraedd y rhwydwaith o drosglwyddyddion o gwmpas Cymru.

1.7 Fel rhan o'r broses o ddarparu gwasanaethau teledu mae S4C yn delio gyda chwmniau cynhyrchu a chyflenwyr rhaglenni, awduron, artistiaid, datblygwyr fformat, a.y.b. Mae'r broses gomisiynu yn cynnwys datblygu syniad y cred S4C fydd yn addas i'w hamserlen, trafod a chytuno gyda'r cyflenwyr y ffurf debygol a chyllideb y rhaglen/ni a chytundebu'n ffurfiol. Yn achos digwyddiadau neu brosiectau achlysurol, gwahoddir tendrau. Gwarchodir pob comisiwn o ran cynnwys a gwariant drwy gydol ei ddatblygiad ac y mae holl weithgareddau S4C yn cael eu monitro gan archwilwyr allanol. Rhoddir ystyriaeth i'r gynulleidfa darged wrth amserlennu ac fe hyrwyddir y rhaglenni gyda'r bwriad o geisio cyrraedd y targed hwnnw.

1.8 Ar gyfer ymgyrchoedd hyrwyddo defnyddir amrywiaeth o gyfryngau megis: y wasg, hysbysfyrddau, "post uniongyrchol", y Rhyngrwyd a sianelau teledu a radio. Mae S4C yn cynnal ymchwil manwl i batrymau gwylio, ymateb i raglenni, effeithiolrwydd ymgyrchoedd marchnata ac i dreialu ambell fformat newydd. Gall rhain fod ar ffurf grwpiau trafod, holiaduron neu fesuryddion electronig.

1.9 Os tybir fod gan raglen/ni botensial i ennill incwm ychwanegol drwy werthiant i ddarlledwyr eraill neu drwy werthu nwyddau neu drwy ymelwa ategol (llyfrau, tâpiau fidio a sain, CD ROM, nwyddau a.y.b) yna mae S4C yn manteisio ar hynny er mwyn cynyddu incwm y Sianel.

1.10 Mae nifer o adrannau yn cyflawni neu'n cyd-weithio ar y gweithgareddau uchod. Yn eu plith mae'r Adrannau Rhaglenni (y Comisiynwyr), Darlledu, Marchnata, Ymchwil, Cynllunio, Cyllid, Cyllid Rhaglenni, Cyfreithiol a S4C Masnachol.

1.11 Mae S4C hefyd yn delio o ddydd i ddydd gyda chyflenwyr gwasanaethau eraill ar wahan i raglenni. Yn eu plith mae cwmniau sy'n darparu gwasanaethau atodol ond hanfodol i'r broses o ddarlledu'r gwasanaeth (megis perchnogion y trosglwyddyddion, Channel 4, cyflenwyr gwasanaethau ymchwil, teletestun, cwmniau ymgynghorol, cwmniau hyrwyddo, argraffwyr, cyhoeddwyr, cyflenwyr nwyddau ac offer, a.y.b)

1.12 Fel rhan o'n darpariaeth hyrwyddo a marchnata mae S4C yn delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd drwy ddull dosbarthu "post uniongyrchol" a chedwir rhestr o'r rhai sydd wedi dymuno derbyn ein cyhoeddiadau ar fâs data. Yr Adran Farchnata sy'n gyfrifol am y gwaith hwn. Mae Adran y Wasg Gorfforaethol a Chysylltiadau Cyhoeddus yn delio ag ymholiadau'r wasg a'r cyfryngau torfol ac yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth a datganiadau ar eu cyfer.

1.13 Codir rhan o incwm S4C drwy osod hysbysebion ar y sgrîn a chael cwmniau i noddi rhaglenni, cyfresi a gwasanaethau. Mae'r Adran Hysbysebu a Nawdd, sy'n rhan o S4C Masnachol, yn trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau rheolaidd ar gyfer darpar hysbysebwyr a chleientiau cyfredol.

1.14 Mae gan S4C wasanaeth teleffon arbennig i'r cyhoedd allu cysylltu ag S4C yn uniongyrchol - "Gwifren Gwylwyr S4C". Mae ar agor saith niwrnod yr wythnos ac fe'i defnyddir gan y gwylwyr i holi am raglenni, gofyn am wybodaeth ychwanegol, i wneud sylwadau am y gwasanaeth ac yn y blaen. Mae staff y wifren hefyd yn delio gyda'r holl ymholiadau tebyg a ddaw drwy lythyr neu "e-bost". Cofnodir yr holl ymholiadau a'r cwynion a dosberthir y manylion i'r adrannau perthnasol. Os yw'r atebion yn rhai y gellir eu cynnig ar eu hunion, yna fe wneir hyn. Trefnir i ateb ymholiadau mwy cymhleth mor fuan ag sy'n ymarferol bosibl. Adran Y Wasg Gorfforaethol a Chysylltiadau Cyhoeddus sy'n gofalu am y gwasanaeth hwn ond mae cwmni allanol yn ei staffio.

1.15 Mae'r gwaith o ddarparu gwasanaethau Teletesun, is-deitlo a deunydd ar gyfer y Wê-Fyd-Eang (Rhyngrwyd) yn cael ei baratoi gan Adran Teletestun S4C.

1.16 Mae S4C hefyd yn delio â cheisiadau am swyddi, trefnu cyfweliadau i ymgeiswyr a gweinyddu'r broses o gyflogi'n gweithlu. Hysbysebir swyddi gweigion yn y wasg yng Nghymru ac mewn rhai cylchgronau arbenigol. Yr Adran Bersonel a Gweinyddiaeth sy'n gyfrifol am y gwaith hwn.

1.17 Ym mhrif dderbynfa S4C yng Nghaerdydd mae'r switsfwrdd deliffon. Yno mae'r staff yn delio gyda'r holl ymwelwyr o ddydd i ddydd a galwadau teliffon cyffredinol. Fodd bynnag mae gan adrannau unigol o fewn S4C rifau uniongyrchol sy'n cael eu dosbarthu i gyflenwyr S4C. Os nad oes ateb ar rif uniongyrchol caiff yr alwad ei ail-gyfeirio'n awtomatig i'r dderbynfa. Mae staff y Dderbynfa'n rhan o'r Adran Bersonel a Gweinyddiaeth.

2. POLISIAU A MENTRAU NEWYDD

Bydd S4C yn:

2.1 asesu effaith ieithyddol pob polisi a menter newydd ac yn sicrhau bod rhain yn gyson gyda'r Cynllun hwn ac nid yn ei danseilio

2.2 sicrhau bod egwyddorion y Cynllun hwn yn cael eu gweithredu wrth roi polisiau a mentrau newydd ar waith

2.3 ymgynghori â'r Bwrdd Iaith ynglyn â chynlluniau fydd yn effeithio ar y Cynllun hwn neu'n effeithio ar gynlluniau sefydliadau cyhoeddus eraill

2.4 hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ble bynnag bo hynny'n bosibl

2.5 sicrhau bod ei staff a'r ymgynghorwyr sy'n llunio polisiau S4C yn ymwybodol o'r Cynllun hwn. Lansir y Cynllun yn ffurfiol er mwyn hysbysu'r staff. Caiff ei egluro drwy'r system briffio a chyfarfodydd adrannol, trwy ddosbarthu copiau i'r adrannau perthnasol a chynnwys cyfarwyddiadau yn llawlyfr y staff. Lle bo angen cyfleu'r Cynllun neu ran ohono i gyflenwyr allanol, bwriadwn ddarparu cyfnod o ymgynghori ac arwain i'w hannog i gydymffurfio ag ysbryd y Cynllun.

2.6 sicrhau na newidir y Cynllun hwn heb gytundeb Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

3. CYFLWYNO'R GWASANAETH

3.1 Fel corff sy'n derbyn arian cyhoeddus mae gan S4C ddyletswydd arbennig i roi gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru am ei gynlluniau ac i roi modd iddynt gael gwybodaeth, i gofnodi eu sylwadau, i wneud cwynion a derbyn ymateb yn brydlon ac yn ddirwystr.

3.2 Oherwydd natur a phwrpas S4C ers ei sefydlu yn 1981, mae defnyddio'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg wedi bod yn rhan naturiol o batrymau gwaith a threfniadaeth y sefydliad o ddydd i ddydd. Felly, cyn i'r Ddeddf Iaith gael ei fabwysiadu, yr oedd gan S4C ddarpariaeth i ddelio gyda'r cyhoedd yn Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd.

3.3 Bydd S4C :

- yn sicrhau y bydd yn medru parhau i ymdrîn â'r cyhoedd yn ddwyieithog yn ei swyddfeydd ac ym mhob lleoliad lle y bydd y cyhoedd yn debygol o ddelio'n uniongyrchol ag S4C fel corff cyhoeddus yng Nghymru
- yn sicrhau fod y Prif Swyddogion a Rheolwyr yn llwyr ymwybodol o ofynion y Cynllun hwn a bod holl staff yr adrannau sy'n delio â'r cyhoedd yn gweithredu'r Cynllun hwn a'r egwyddorion ynddo
- yn gofyn i gwmniau a sefydliadau eraill sy'n ymdrin â'r cyhoedd yn enw S4C i gydymffurfio â'r Cynllun hwn.

3.4 Mae gennym eisoes staff all weithredu'n ddwyieithog yn y meysydd canlynol wrth ddelio â'r cyhoedd:

- materion corfforaethol a pholisi, cydymffurfiaeth, golygyddol a datblygiad busnes
- materion datblygu a chomisiynu rhaglenni, ariannol, cyllidebol, cytundebol a chyfreithiol.
- cyhoeddi llyfrau, tapiau fideo, sain a chynnyrch rhyngweithiol
- holl ymgyrchoedd a theithiau hyrwyddo, arddangosfeydd, darparu cyhoeddusrwydd a deunydd marchnata wedi eu trefnu'n uniongyrchol gan S4C neu gan asiantaeth yn enw S4C
- gwasanaethau delio gydag ymholiadau a sylwadau'r cyhoedd drwy alwadau teliffon (Gwifren Gwylwyr S4C), llythyrau, e-bost, ffacs, Rhyngrwyd a.y.b
- y dderbynfa a'r gyfnewidfa deliffon; swyddfeydd ysgrifenyddol adrannau.

3.5 Lle bo angen cyfieithu deunydd mewn meysydd arbenigol neu gyfarfodydd byddwn o dro i dro yn cyflogi cyfieithwyr allanol proffesiynol. Yn yr un modd, os bydd galw ar unrhyw un o'r staff nad yw'n gwbl rugl yn y Gymraeg i fynychu

cyfarfod sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn darparu offer symudol a chyfieithydd yn ôl y galw. Os bydd cynnydd yn y galw, yna bydd S4C yn ystyried cyflogi cyfieithydd ei hunan neu hyfforddi staff i wneud y gwaith.

3.6 Mae cyfran uchel iawn o'r gwaith o gyflenwi rhaglenni a gwasanaethau atodol i S4C yn cael ei wneud gan gwmniau annibynnol a chyflenwyr allanol. Mae'r berthynas gyfreithiol a chytundebol rhwng y rhain ag S4C yn un fasnachol a chymhleth. Fodd bynnag, bydd S4C yn eu hannog i weithredu cynlluniau eu hunain neu gydymffurfio ag ysbryd y Cynllun hwn hyd eithaf eu gallu tra'n darparu gwasanaethau i S4C. Byddwn hefyd yn cynnig profiad ein harbenigwyr ym maes gweithredu'n ddwyieithog iddyn nhw ac yn rhannu unrhyw wybodaeth a dogfennau sydd eisoes wedi eu darparu.

3.6 Byddwn hefyd, wedi cyfnod o ymgynghori, yn darparu cyfarwyddiadau a chopi o'r Cynllun hwn ar gyfer cyflenwyr sydd, oherwydd natur eu gwaith, yn debygol o ddelio'n uniongyrchol â'r cyhoedd yn enw ac ar ran S4C.

4. SAFON Y DEFNYDD O'R GYMRAEG WRTH YMDRÎN Â'R CYHOEDD

Bydd S4C yn:

4.1 sicrhau y bydd yn medru ymdrîn â'r cyhoedd i'r un safon yn y Gymraeg ag yn y Saesneg gan gynnwys cydymffurfio ag egwyddorion Siarter y Dinesydd.

- Yn achos dogfennau a llythyrau, mae'n ddealladwy eisoes fod i'r Gymraeg a'r Saesneg yr un statws gweinyddol a chyfreithiol yn S4C. Pan fydd dogfen yn cael ei darparu ym mha un bynnag o'r ddwy iaith a bod angen cyfieithiad ohoni, darperir cyfieithiad gan staff mewnol neu gyfieithwyr allanol proffesiynol.
- Yn achos arddangosfeydd ac ymgyrchoedd, mae'r adrannau perthnasol eisoes yn gweithredu'r egwyddor hon er sicrhau cysondeb safon.
- Bydd cyfarwyddiadau penodol yn cael eu cynnwys yn y llawlyfr staff ac o fewn canllawiau sy'n cael eu darparu ar gyfer staff ar rwydwaith electronig newydd.

4.2 arolygu'r safonau ac adolygu'r modd y gweithredir y Cynllun hwn. Byddwn yn trefnu hyfforddiant mewn meysydd gofal cwsmeriaid yn ôl yr angen

- Bwriedir sefydlu panel mewnol i fonitro ac i drefnu arolygon achlysurol ar safon ein gwasanaeth. Bydd hyn yn cyd-fynd â mentrau eraill i sefydlu a chynnal safonau wrth ymdrin a'r cyhoedd.

4.3 sicrhau cysondeb safon wrth ymdrîn â'r cyhoedd yn y Gymraeg ymhob rhan o Gymru.

- Gan mai Cymru gyfan yw ein maes, mae S4C eisoes yn gweithredu'r egwyddor hon mewn dogfennau ffurfiol, swyddogol a chyfreithiol. Fodd bynnag, ni fwriadwn i hyn ein llyffeitheirio pan fo'n briodol inni ddefnyddio ymadroddion tafodieithol a rhanbarthol yn ystod ymweliadau a theithiau hyrwyddo.

5. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

Llythyrau a gohebiaeth ysgrifenedig

5.1 Bydd S4C yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg:

- byddwn yn hysbysu'r cyhoedd am hyn yn yr un modd ag yr hyrwyddir y gwasanaeth "Gwifren Gwylwyr", sydd eisoes yn croesawu galwadau yn y ddwy iaith

5.2 Bydd S4C yn sicrhau :

- fod llythyrau a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ateb yn Gymraeg wedi eu llofnodi ac na fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn achosi oedi.
- fod gohebiaeth yn cael ei pharhau yn Gymraeg ar ôl siarad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg.
- fod gohebiaeth yn cael ei chychwyn yn Gymraeg gyda'r rheiny y mae'n wybyddus ei bod yn well ganddyn nhw ohebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- yr anfonir gohebiaeth ddechreuol ddwyieithog lle nad yw'n wybyddus ym mha iaith y mae'r aelod o'r cyhoedd am dderbyn yr ohebiaeth
- y bydd cylchlythyrau a llythyrau safonol i'w hanfon i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- darpariaeth cyfieithu ar gyfer staff lle bo angen hynny i gyflawni'r amodau uchod.
- fod cofnod yn cael ei gadw o rai sy'n dymuno delio âg S4C mewn iaith benodol ac eiddo S4C fydd y cofnod hwnnw.

Cyfathrebu ar y teliffôn

5.3 Bydd S4C yn cyflogi atebwyr dwyieithog ar y brif gyfnewidfa deliffon a'r gwasanaeth "Gwifren Gwylwyr" sy'n delio ag ymholiadau a chwynion y cyhoedd.

- Bydd pob un sy'n galw prif gyfnewidfa deliffon S4C yn cael eu cyfarch yn y Gymraeg a phob un sy'n galw'r "Gwifren Gwylwyr" yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog.
- Ym mhob achos bydd yr atebwyr yn croesawu galwadau teliffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
    - Rhif ffôn cyffredinol S4C yw: 01 222 74 74 44
    - Rhif ffôn Gwifren Gwylwyr S4C yw: 01 222 74 14 14
    - Rhif ffôn Minicom (i'r byddar) yw: 01 222 74 12 12
    - Rhif Ffôn Caernarfon yw: 01 286 67 46 22

5.4 Mae llinellau uniongyrchol i nifer o adrannau o fewn S4C a bydd cyflenwyr rheolaidd yn gyfarwydd â'r rhifau hynny. Pan na fo rhywun ar gael i ateb, caiff yr alwad ei ail-gyfeirio'n awtomatig i'r brif gyfnewidfa.

5.5 Bydd S4C yn rhoi arweiniad i'w staff ar sut i ddelio â galwadau yn y ddwy iaith.

- Lle bo galw am hynny, byddwn yn cynnal cyrsiau i staff ddod yn gyfarwydd â'r drefn. Rhoddir cyfarwyddiadau penodol i rai sy'n llai rhugl yn y Gymraeg. Byddwn hefyd yn cynnig gwersi i bob un o'r staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg er nad yw eu swydd yn galw am ddelio â'r cyhoedd.
- Bydd cyfarwyddiadau cyffredinol yn cael eu dosbarthu i'r staff.

5.6 Bydd negeseuon dwyieithog ar holl beiriannau ateb swyddfeydd S4C sy'n delio â galwadau'r cyhoedd.

5.7 Fel arfer, bydd y person priodol a chymwys yn S4C yn medru cynnal sgwrs yn y Gymraeg â'r sawl sy'n galw. Yn yr achosion hynny lle nad yw hyn yn ymarferol, bydd S4C yn ymdrechu i drosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg sy'n gallu gweithredu fel cyswllt.

Cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau swyddogol

5.8. Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau swyddogol naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg neu yn ddwyieithog pa un bynnag sydd fwyaf addas er mwyn cyfathrebu yn effeithiol â'r gynulleidfa sy'n bresennol (gan ystyried natur y gynulleidfa). Ar bob achlysur o'r fath, bydd S4C yn croesawu cyfraniadau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Nodir hynny ar lafar yn ystod y digwyddiadau neu o flaen llaw ar y gwahoddiadau neu'r hysbysiadau o'r digwyddiad.

5.9 Bydd S4C yn asesu'r angen ar gyfer darparu cyfarpar cyfieithu a chyfieithydd fel y gall aelod o'r cyhoedd ddewis ym mha iaith y mae ef neu hi'n dymuno siarad.

5.10 Os cwyd galw am ddarpariaeth ddwyieithog, bydd S4C yn gwneud pob ymdrech un ai i ddarparu cyfarpar cyfieithu a chyfieithydd neu i gyfieithu ar y pryd.

5.11 Mae gan S4C gyfarpar cyfieithu sefydlog yn ei phrif ystafell gyfarfod yn Llanisien ac uned symudol ar gyfer lleoliadau eraill.

5.12 Bydd staff cyfarch pob cyfarfod cyhoeddus a digwyddiad swyddogol yn ddwyieithog. Bydd S4C yn gosod arwydd mewn arddangosfeydd a derbynfeydd i nodi fod y staff yn ddwyieithog.

Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd

5.13 Bydd y staff cyfarch wrth ddesg derbynfa S4C yn ddwyieithog a bydd arwydd ar y dderbynfa i nodi hynny.

5.14 Bydd pobl sy'n dymuno neu'n gorfod delio ag S4C wyneb yn wyneb yn medru gwneud hynny drwy'r Gymraeg fel y Saesneg. Cyn belled â bod y cyfarfod wedi ei drefnu o flaen llaw (yn dilyn cyfnod rhesymol o rybudd), bydd S4C yn sicrhau bod person â gwybodaeth ddigonol o'r Gymraeg neu gyfieithydd yn mynychu'r cyfarfod. Bydd S4C yn gofyn ym mha iaith mae'r ymwelydd yn dymuno cynnal y cyfarfod.

Dulliau eraill o gyfathrebu

5.15 Bydd S4C yn defnyddio dulliau eraill o gyfathrebu gyda'r cyhoedd ac yn gweithredu fel a ganlyn:

- Ar y Wê-Fyd Eang (Rhyngrwyd) bydd y wybodaeth am ein rhaglenni a'n cynnyrch yn y Gymraeg neu'r Saesneg neu yn ddwyieithog pa un bynnag sydd fwyaf addas gan ystyried natur y cynnwys a'r gynulleidfa darged. Mae dewis gan y cyhoedd i gysylltu â'r fersiwn Cymraeg neu'r Saesneg a bydd neges yn croesawu ymateb yn unrhyw un o'r ddwy iaith

    - cyfeiriad Rhyngrwyd S4C yw: www.s4c.co.uk

- Drwy gyfeiriad "e-bost" S4C lle gellir anfon a derbyn negeseuon a throsglwyddo dogfennau cyfan yn electronig.
- Yma eto bydd cyfarwyddyd i staff ateb yn iaith anfonydd unrhyw neges at S4C. Lle bo gwybodaeth gan S4C ynglyn â dewis iaith derbynydd neges "e-bost", bydd unrhyw gyfathrebu yn yr iaith honno.
- Lle nad oes wybodaeth ond bod sicrwydd fod derbynydd yng Nghymru gwneir ymdrech i sefydlu iaith unrhyw gyfathrebu pellach drwy anfon neges byr agoriadol yn ddwyieithog

    - Cyfeiriad "e-bost" S4C yw: s4c@s4c.co.uk

- Drwy beiriant ffacs. Yma eto, fel uchod, gweithredir yn ôl dymuniad y derbynydd neu'n ôl y wybodaeth sydd ar gael.
- Mae tudalen flaen pob neges allan o S4C yn cael ei gynhyrchu gan system gyfrifiadurol ac y mae'n ddwyieithog.
- Rhif Ffacs cyffredinol S4C yw: 01 222 75 44 44

5.16 Bydd S4C hefyd yn cyfathrebu â'r cyhoedd drwy ac ar y sgrîn deledu gan gynnwys y gwasanaeth Teletestun. Rheolir y dulliau hyn o gyfathrebu o dan y Deddfau Darlledu ond mae'n werth nodi fod y gwasanaethau presennol yn cynnwys:

- Is-deitlo Saesneg ar 75% o raglenni Cymraeg ar 888 ar y gwasanaeth analog.

- Is-deitlo Cymraeg ar 30% o raglenni Cymraeg (ar gyfer dysgwyr) ar 889
- Is-deitlo agored ar rai ail-ddarllediadau
- Bydd is-deitlo'r rhaglenni digidol yn cael ei gyflwyno dros gyfnod i'w gytuno â'r Comisiwn Teledu Annibynol.
- Tudalennau gwybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg am raglenni Cymraeg S4C ar wasanaeth Teletestun. Mae manylion am raglenni a ddaw oddi wrth C4 yn Saesneg.

5.17 Mae hysbysebion a chyhoeddiadau nawdd sy'n ymddangos ar y sgrin hefyd yn dod o fewn terfynau'r Deddfau Darlledu. Mae Adran Hysbysebu a Nawdd S4C yn cynnig cymorth, cyngor ac anogaeth llwyr i rai sy'n dymuno darlledu eu hysbysebion yn y Gymraeg. Yn gynwysedig yn y categori hwn mae:

- cyrff cyhoeddus a sefydliadau sydd yn cydymffurfio â'u cynlluniau iaith eu hunain e.e. adrannau o'r llywodraeth, awdurdodau lleol, a.y.b
- cwmniau masnachol mawr a bach ac unrhyw fudiad neu sefydliad elusennol sy'n awyddus i ddarlledu fersiynau Cymraeg a Saesneg o'u hysbysebion a'u cyhoeddiadau.

5.18 Bwriedir i'r Deddfau Darlledu hefyd reoli darlledu digidol ac unrhyw ddatblygiadau mewn technoleg teledu sy'n perthyn i hynny. Bydd S4C yn manteisio ar bob cyfle, lle bo hi'n dechnegol bosibl ac yn fasnachol ymarferol, i weithredu egwyddorion y Cynllun hwn wrth dargedu'r cyhoedd yng Nghymru.

5.19 Bydd S4C hefyd yn ystyried cyflwyno gwasanaethau i'r rhai sydd â nam ar eu golwg lle ychwanegir llais sylwebydd i egluro'r manylion gweladwy ar y sgrin. Ar raglenni Cymraeg, bydd sylwebaeth yn Gymraeg ar gael.

6. WYNEB CYHOEDDUS Y SEFYDLIAD

Hunaniaeth gorfforaethol

6.1 Enw swyddogol S4C yw S4C neu Sianel Pedwar Cymru.

6.2 Logo S4C yw:

S4C

6.3 Bydd y wybodaeth safonol sy'n ymddangos ar bapur pennawd, slipiau cyfarchion, blaenddalenni ffacsimili, cardiau busnes, bathodynnau adnabod ac unrhyw arddangosfeydd corfforaethol S4C yng Nghymru yn y Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog.

Arwyddion

6.4 Bydd unrhyw arwyddion a lunir gan S4C yn y Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog.

6.5 Os bydd angen i unrhyw arwyddion wahanu'r ddwy iaith, bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac eglurder a'r Gymraeg yn gyntaf neu'n ochr yn ochr â'r Saesneg.

6.6 Mae gan S4C arwyddion dwyieithog yn y Brif Dderbynfa yn Llanisien.

6.7 Mewn rhannau eraill o'r adeilad yn Llanisien, mae arwyddion a fwriadwyd ar gyfer y cyhoedd (megis rhai iechyd a diogelwch neu gyfarwyddyd arbennig) yn ddwyieithog a'r gweddill ar gyfer y staff mewnol yn uniaith Gymraeg. Mae'r un polisi yn cael ei weithredu yng Nghaernarfon.

6.8 Mewn arddangosfeydd parhaol neu dros dro bydd yr holl arwyddion iechyd a diogelwch yn ddwyieithog. Fodd bynnag, bydd yr arddangosfeydd un ai'n Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog yn ôl gofynion yr achlysur.

Cyhoeddi ac argraffu deunydd

(Ac eithrio deunydd hyrwyddo a chyhoeddusrwydd rhaglenni)

6.9 Bydd yr holl gyhoeddiadau corfforaethol sydd wedi eu bwriadu ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru gan S4C yn ddwyieithog ac o fewn yr un ddogfen. Bydd S4C yn cyllido ar gyfer darparu fersiynau dwyieithog o fewn yr un gyfrol o'r cyhoeddiadau perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adroddiadau Blynyddol
- Adroddiadau Ariannol a Chyfrifon Blynyddol
- Dogfennau ymgynghorol
- Canllawiau Cydymffurfiaeth S4C
- Llawlyfr Cyflenwyr S4C

6.10 Nid yw S4C erioed wedi codi tâl am unrhyw ddogfen gorfforaethol. Os bydd S4C, wedi cyhoeddi'r Cynllun hwn, yn penderfynu codi tâl am gyhoeddiadau corfforaethol ac os cyhoeddir fersiynau ar wahan yn y Gymraeg a'r Saesneg, bydd S4C yn sicrhau fod y fersiwn Gymraeg ar gael yr un pryd a'r Saesneg a fod yr un pris yn daladwy am y naill fersiwn a'r llall.

6.11 Bydd canllawiau penodol i staff, dylunwyr ac argraffwyr i sicrhau fod unrhyw ddogfennau corfforaethol yn y Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog a lle bo'r ddogfen yn ddwyieithog bydd y Gymraeg yn gyntaf neu'n ochr yn ochr â'r fersiwn Saesneg.

6.12 Mae rhai cyhoeddiadau, cyfrolau a chynnyrch sydd ynghlwm wrth raglenni S4C yn cael eu cyhoeddi gan Hughes a'i Fab, sy'n gyfadran o S4C Masnachol.

- Cyhoeddir y mwyafrif o'r cyfrolau'n uniaith Gymraeg. Lle bo fersiwn Saesneg, bydd pris y fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un fath.
- Pan gyhoeddir casetiau fideo neu sain neu CD ROM mae'r cloriau'n ddwyieithiog ond y cynnwys yn Gymraeg.
- Pan fo'r casetiau'n fersiwn Gymraeg o ddeunydd sydd hefyd ar gael yn Saesneg (oddi wrth gyhoeddwyr eraill) bydd y ddau bris yr un fath.
- Hysbysebir cynnyrch Hughes a'i Fab yn y Gymraeg mewn cylchgronnau Cymraeg ac yn ddwyieithog yng Nghatalog Hughes a'i Fab.

6.13 Mae'r holl ddogfennau argraffedig sy'n ymwneud â thrafodion ariannol S4C yn ddwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Anfonebau
- Talebau
- Derbynebau
- Dogfennau siec
- Dogfennau cyflogau

Mae swm pob siec yn cael ei nodi yn y Gymraeg yn unig.

6.14 Bydd deunydd hyrwyddo, posteri a hysbysebion corfforaethol S4C sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru yn y Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog. Penderfynnir ar y fersiynau i gydweddu â'r achlysur neu angen. e.e. lle bo angen parchu rheol Gymraeg yr Eisteddfod Genedlaethol, bydd ein harddangosfa'n debygol o fod bron yn uniaith Gymraeg. Yn Sioe Amaethyddol Llanelwedd, bydd y deunydd yn ddwyieithog.

Deunydd esboniadol a ffurflenni

(Ac eithrio deunydd hyrwyddo a chyhoeddusrwydd rhaglenni)

6.15 Bydd S4C yn darparu deunydd esboniadol a ffurflenni ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn y Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys:

- manylion dwyieithog am wasanaethau ymylol megis Teletestun, "Gwifren Gwylwyr" a.y.b.
- manylion dwyieithog am faterion cydymffurfiaeth, sut, at bwy i gwyno a.y.b
- ar achlysuron lle mae'n wybyddus ymlaen llaw fod pawb yn Gymry Cymraeg e.e. ymweliad partion ysgol neu fudiadau â phrif swyddfeydd S4C, gall y deunydd gael ei gyflwyno yn Gymraeg yn unig

6.16 Bydd S4C yn anfon fersiwn Cymraeg yn unig neu fersiwn dwyieithog o ddeunydd yn unol â'r wybodaeth fydd ar gael o fewn S4C.

Datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau

(Ac eithrio parthed rhaglenni)

6.17 Bydd datganiadau ysgrifenedig corfforaethol S4C i'r wasg a'r cyfryngau torfol yng Nghymru yn y Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog.

- Yn y Gymraeg yn unig yr anfonir at gyhoeddiadau Cymraeg megis wythnosolion a phapurau bro
- Yn ddwyieithog i gyhoeddiadau eraill megis papurau newydd a.y.b

Gweithgareddau hyrwyddo a chyhoeddusrwydd

(Oddi ar y sgrîn)

6.18 Bydd iaith ymgyrchoedd hyrwyddo a chyhoeddusrwydd S4C fel a ganlyn:

- bydd hyrwyddo corfforaethol yn y wasg ac ar y Rhyngrwyd yn y Gymraeg yn bennaf neu yn ddwyieithog.
- hyrwyddir rhaglenni Cymraeg S4C drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf ac eithrio'r rhai sydd hefyd wedi eu targedu i ddenu gwylwyr di-Gymraeg. Bydd rheiny yn cael eu hyrwyddo yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys hysbysebion taflenni, nwyddau, negeseuon electronig a.y.b
- hyrwyddir rhaglenni Saesneg a ddaw oddi wrth Channel 4 ar y gwasanaeth analog drwy gyfrwng y Saesneg.
- ar hysbysfyrddau ochr y ffordd bydd rhai posteri mawr mewn un iaith yn unig ond bydd un cyfatebol yn yr iaith arall yn yr un ardal. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol mewn ymgyrchoedd i hyrwyddo rhaglenni Cymraeg sydd wedi eu targedu i ddenu gwylwyr di-Gymraeg.

6.19 Bydd arolygon cyhoeddus a chyfryngau ymateb i ymgyrchoedd hyrwyddo yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn unol â'r hyn sydd yn wybyddus am iaith aelodau'r cyhoedd yn yr arolygon. Fodd bynnag, mae'n rhaid nodi fod cyflenwyr allanol yn aml yn gweithredu ar ran S4C yn y maes arbenigol hwn ac mewn rhai achosion ni chaniateir i S4C wybod pwy sydd wedi cyfranogi o'r paneli ymateb ac ymchwil. Gwneir peth o'r ymchwil drwy grwpiau sy'n ymateb o fewn trafodaeth, peth drwy arolygon barn ac ystadegau paneli mesur.
Yn achos y grwpiau trafod bydd S4C :

- yn mynnu fod recriwtio'r ymatebwyr yn digwydd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog
- yn mynnu fod grwpiau'n cael gwybod ymlaen llaw (mewn dogfen ddwyieithog) ym mha iaith y bydd y grwpiau'n debygol o fod yn trafod
- yn darparu gwasanaeth cyfieithu yn ôl y galw
- yn gosod targedau i'r cyflenwyr i ricriwtio a hyfforddi ychwaneg o rai cymwys i lywio'r grwpiau.

6.20 Yn achos ymchwil drwy holiaduron a phaneli mesur, bydd S4C yn annog y cyflenwyr i weithredu egwyddorion y Cynllun hwn drwy roi dewis o iaith ymateb i'r cyhoedd. Gosodir targedau i'r cwmniau gyrraedd safon derbyniol o wasanaeth yn enw S4C.

Hysbysiadau cyhoeddus

6.21 Bydd S4C yn cyhoeddi eu hysbysiadau cyhoeddus fel a ganlyn:

- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau uniaith Gymraeg eu cynnwys.
- ym mhob cyhoeddiad arall sy'n cylchredeg yng Nghymru naill ai yn y Gymraeg yn unig lle bo'r iaith yn hanfodol neu yn ddwyieithog. Lle bo galw, ychwanegir crynodeb byr yn Saesneg ar waelod hysbyseb Cymraeg
- os oes raid i'r fersiynau Cymraeg a Saesneg fod ar wahan, bydd S4C yn sicrhau eu bod ar y sail y bydd y fersiwn Gymraeg yn gyntaf neu y bydd y ddwy iaith ochr yn ochr â'i gilydd.

6.22 Mae'r hysbysiadau hyn yn cynnwys cyhoeddiadau swyddogol, gwahoddiadau tendro, hysbysebion swyddi, ysgoloriaethau a grantiau nawdd fydd yn ymddangos yn y wasg.

6.23 Bydd gan bob adran eu canllawiau a'u cyfarwyddiadau eu hunain i weithredu'r egwyddorion uchod.

7. GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN

Staffio

7.1 Bydd S4C yn sicrhau fod siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau priodol ar gael i gyfathrebu â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

7.2 Bydd S4C yn nodi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ac fe nodir hyn yn yr hysbysiadau swyddi perthnasol.

7.3 Bydd S4C yn sicrhau bod pob person sy'n gyfrifol am benodi staff yn S4C yn ymwybodol o ofynion y Cynllun hwn ac yn asesu'r angen am rugledd yn y Gymraeg cyn penodi ar gyfer unrhyw swydd yn S4C lle y mae'r sawl sy'n dal y swydd yn debygol o fod mewn cyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru.

Dysgu Cymraeg i'r staff

7.4 Bydd S4C yn annog a chefnogi ei staff i ddysgu Cymraeg ac yn sicrhau fod gwersi dysgu Cymraeg ar gael i'r aelodau hynny o'i staff sy'n dymuno dysgu o'r newydd neu loywi eu hiaith, prun ai yw eu swyddi yn galw am wybodaeth o'r Gymraeg ai peidio. Gwneir hyn drwy:

- ddarparu gwersi yn y gweithle
- sicrhau fod y dysgwyr yn cael eu rhyddhau ar gyfer eu gwersi yn ystod oriau gwaith
- sicrhau fod y rhai sy'n dysgu ar ddyddiau seibiant rhwng shifftiau yn cael eu talu ar raddfa oriau gwaith arferol
- ddarparu adnoddau megis llyfrau, tâpiau dysgu, a.y.b
- ddarparu cefnogaeth a chymorth drwy swyddog hyfforddi S4C.

Recriwtio

7.5 Oherwydd natur S4C a'i hamcanion, mae'n amlwg y bydd S4C yn ystyried gallu ieithyddol yn un o'r nifer o sgiliau perthnasol wrth benodi staff. Nodir hynny yn yr hysbysebion ac yn y disgrifiadau swyddi. Bydd ffurflenni cais S4C yn ddwyieithog a'r cyfathrebu gyda phob ymgeisydd wedi hynny yn ôl yr iaith a ddefnyddiwyd i gwblhau'r ffurflenni.

7.6 Lle bo S4C yn ystyried y gallu i siarad yr iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd benodol ond heb lwyddo i ddenu ymgeisydd cymwys sy'n siarad Cymraeg, yna fe fydd S4C yn ystyried cynnig y swydd i ymgeisydd di-Gymraeg ond ar yr amod ei fod ef neu hi yn cyrraedd lefel foddhaol o rugledd mewn cyfnod penodol.

7.7 Bydd S4C yn mabwysiadu system asesu gydnabyddedig i fesur rhugledd lle bo galw.

Hyfforddiant galwedigaethol

7.8 Bydd S4C yn asesu'r angen am hyfforddiant penodol drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu cyrsiau penodol i gyflawni'r angen hwnnw. Rhaid nodi mai prin yw'r sianelau teledu sy'n gweithredu ac yn gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg a'n bod yn unigryw am ein bod yn cynnal rhai gweithgareddau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Mae cyfran o hyfforddiant dechreuol S4C yn hyfforddiant o fewn y swydd, gan rai sydd eisoes wedi meithrin arbenigedd drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae S4C yn un o gyd-sefydlwyr "Cyfle" sy'n asiantiaeth hyfforddi galwedigaethol i'r gweithlu Cymraeg ei iaith yn y diwydiant teledu. Byddwn yn defnyddio adnoddau megis "Cyfle" pan fo angen anfon ein staff ar gyrsiau addas i'w gyrfa.
- Lle bo angen hyfforddiant a bod cyrsiau a hyfforddwyr cymwys ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg bydd S4C yn eu defnyddio.

Trefniadau gweinyddol

7.9 Mae'r Cynllun hwn wedi ei gymeradwyo gan Awdurdod S4C sydd wedi rhoi awdurdod llawn i'r Prif Weithredwr a Thim Rheoli S4C ei weithredu.
Mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr S4C yn rhoi eu cefnogaeth lawn i'r Cynllun ac yn bwriadu pwysleisio i'r staff eu bod am ei weld yn cael ei weithredu.

7.10 Bydd S4C yn sicrhau fod holl egwyddorion y Cynllun hwn yn cael eu cyfathrebu i staff S4C yn yr un modd ag y mae holl bolisiau eraill S4C yn cael eu cyfathrebu iddynt. Mae gennym lawlyfr staff sy'n cynnwys polisiau ac amodau cyflogaeth S4C. Bydd y Cynllun hwn a chyfarwyddiadau ar sut i'w weithredu yn cael eu hychwanegu at y llawlyfr.

7.11 Bydd S4C yn sicrhau fod Panel Cyd-lynu yn goruchwylio'r modd y gweithredir y Cynllun hwn a bod rheolwyr yn gweithredu'r rhannau hynny ohono sy'n berthnasol i'w hadran. Mae gan pob adran o fewn S4C gynllun adrannol a bydd rhannau perthnasol o'r Cynllun hwn yn cael eu hychwanegu at gynlluniau'r adrannau perthnasol.

7.12 Bydd S4C yn sicrhau fod unrhyw gyfieithiad a ddarperir gan S4C o safon uchel.

7.13 Mae S4C wedi llunio strategaeth ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth yn electronig a bydd S4C yn ystyried y Cynllun hwn wrth weithredu'r strategaeth hon. Un defnydd fydd i'r rhwydwaith gyfathrebu fewnol - y "Fewnrwyd" - gynnwys copi o'r Cynllun hwn ac unrhyw gyfarwyddiadau perthnasol. Bydd S4C, i'r fath raddau

ag y bo'r deunyddiau a'r dechnoleg briodol ar gael, yn sicrhau bod rhaglenni cyfrifiadurol newydd yn galluogi S4C i gydymffurfio â'r Cynllun hwn.

Darparu gwasanaethau i neu ar ran S4C gan bartïon eraill

7.14 Yn achos cyflenwyr allanol sy'n gyrff cyhoeddus, bydd S4C yn disgwyl iddynt weithredu yn unol â'r cynlluniau a gytunwyd rhyngddynt â Bwrdd yr Iaith. Lle nad oes cynllun o'r fath wedi ei gytuno disgwylir i'r cyflenwr weithredu'n unol ag egwyddorion y Cynllun hwn.

7.15 Yn achos cyflenwyr allanol sy'n gwmniau preifat sy'n cyflawni unrhyw weithgareddau y mae disgwyl i staff mewnol S4C eu cyflawni wrth ymwneud â'r cyhoedd (fel y'u nodir yn yr adran "Targedau") a phan fo'r cyflenwyr allanol hynny'n cyflawni'r gweithgareddau hyn yn enw S4C, bydd S4C yn mynnu eu bod yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn o fewn y cyfnod a nodwyd yn yr Adran "Targedau".

7.16 Yn achos cyflenwyr allanol sy'n gwmniau preifat, ac sy'n darparu gwasanaethau i S4C ond nid yn enw S4C ac sy'n delio â'r cyhoedd yng Nghymru yn sgil perthynas fasnachol ag S4C, bydd S4C yn gweithredu'r polisi canlynol:

- bydd S4C yn hysbysu'r cwmni am natur, pwrpas a chynnwys y Cynllun hwn;
- bydd S4C yn annog y cwmni i barchu egwyddorion y Cynllun tra yn darparu gwasanaethau i S4C.
- lle bo hynny'n berthnasol bydd S4C yn gosod amod rhesymol mewn unrhyw gytundeb newydd gyda'r cwmni i sicrhau ei fod yn parchu egwyddorion y Cynllun hwn i'r fath raddau ag y bo'r cwmni yn neu'n debygol o ymwneud â'r cyhoedd.
- Bydd angen ystyried pob achos o'r fath yn unigol, gan gymryd i ystyriaeth :
    - natur y gwasanaeth a gyflenwir i S4C a pha mor amly bydd y cwmni yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd tra'n darparu gwasanaethau i S4C;
    - hyd y cytundeb a'i werth i'r cwmni;
    - lleoliad a maint y cwmni.

Is-gwmniau i S4C

7.17 Yn achos is-gwmniau lle bydd S4C berchen mwyafrif y cyfalaf cyfrannau bydd S4C yn defnyddio ei ddylanwad ar yr is-gwmni i sicrhau ei fod yn gweithredu egwyddorion y Cynllun hwn.

7.18 Yn achos is-gwmniau lle na fydd S4C berchen mwyafrif y cyfalaf cyfrannau bydd S4C yn gweithredu'r un egwyddorion ag sy'n berthnasol i gyflenwyr sy'n gwmniau preifat. Yn achos yr is-gwmniau hyn bydd S4C yn ceisio dylanwadu

arnynt i barchu egwyddorion y Cynllun hwn lle bo'n addas, yn rhesymol ac yn ymarferol.

8. AROLYGU

8.1 Bydd arolygu'r Cynllun hwn yn weithgaredd parhaus.

8.2 Bydd S4C yn sicrhau yr arolygir y modd y gweithredir y Cynllun hwn drwy:

8.2.1 asesu polisiau S4C yng ngoleuni'r Cynllun hwn tra'n cyflwyno unrhyw ddarpariaeth newydd sy'n ymwneud â'r cyhoedd yng Ngymru neu sy'n debygol o effeithio ar y ddarpariaeth bresennol. Bydd pob penderfyniad polisi a strategaeth yn cael ei wneud ar y sail fod y ddwy iaith yn cael eu trin fel bod iddynt statws cyfartal.

8.2.2 arolygu'r modd y mae S4C yn ymateb i alw y cyhoedd am wasanaeth drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, gan gynnwys amseroedd ymateb ac unrhyw drefniadau a wneir ar gyfer cyfarfodydd a.y.b. Mae gennym eisoes ganllawiau ymateb i'r cyhoedd ym maes Cydymffurfiaeth ac mae dau sefydliad allanol yn gweithredu ar ein rhan i fonitro ein gwasanaeth at ddibenion cydymffurfiaeth. Mae gennym system arolygu ein gwasanaeth "Gwifren Gwylwyr" sy'n rhoi adroddiadau rheolaidd ar natur ac amlder sylwadau, ymholiadau a chwynion. Mae ein hadran ymchwil yn cynnal arolygon ffurfiol ar ymateb y cyhoedd i bynciau megis ymgyrchoedd marchnata. Byddwn yn achlysurol yn ymestyn y dulliau hyn o fesur barn i gynnwys cloriannu ein dulliau cyfathrebu â'r cyhoedd drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Yn yr un modd byddwn yn ymestyn ein trefn gwyno a derbyn sylwadau gan groesawu sylwadau ar ein perfformiad wrth ymateb i'r cyhoedd drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Bydd S4C hefyd yn asesu'r gwasanaethau cyfieithu mewnol neu allanol sydd gennym ac yn sicrhau eu bod o'r safon gorau posibl.

8.2.3 arolygu deunydd ysgrifenedig corfforaethol S4C yn ngoleuni'r Cynllun hwn. Mae creu'r deunydd yn ddwyieithog wedi bod yn bolisi gennym ers ein sefydlu yn 1981 ac y mae S4C wedi ymfalchio yn ansawdd ein cyhoeddiadau corfforaethol lle rhoddwyd gofal arbennig a pharch i'r fersiwn Cymraeg yn ogystal a'r Saesneg. Byddwn yn parhau i roi'r un lefel o ofal i'n deunydd ac yn achysurol yn gofyn barn allanol am ei safon.

8.2.4 arolygu polisi staffio S4C o safbwynt gweithredu'r Cynllun hwn. Bydd pob penderfyniad ynglyn ag adnewyddu swyddi, ynghyd a gwerthuso perfformiadau staff, yn rhoi ystyriaeth lawn i holl ofynion y Cynllun hwn. Yn yr un modd bydd unrhyw anghenion hyfforddiant sy'n codi yn sgil gofynion y Cynllun hwn yn cael eu trafod yng ngyd-destun datblygiad gyrfaol y staff.

8.2.5 arolygu natur ac amlder y cwynion sy'n deillio o ymdriniaeth S4C â'r cyhoedd o ran iaith. Bydd S4C, yn yr un modd ag y mae yn delio â chwynion eraill am ei weinyddiad, yn dadansoddi'r cwynion a'r modd y deliwyd â hwy. Os bydd angen, byddwn yn cynnal ymchwiliad os yw'n ymddangos fod ein gwasanaeth i'r cyhoedd wedi gostwng yn is na'r safon osodir yn y Cynllun hwn.

8.3 Mae'r cyfrifoldeb dros arolygu'r Cynllun hwn wedi ei roi'n benodol i:

Ifan Roberts
Cyfarwyddwr Personèl a Gweinyddiaeth S4C

8.4 Dylid anfon unrhyw sylwadau am y Cynllun neu gwynion am y modd y gweithredir egwyddorion y Cynllun hwn gan S4C at:

Ysgrifennydd Awdurdod S4C
Parc Ty Glas
Llanisien
CAERDYDD CF4 5DU
Teliffôn : 01 222 741 404

8.5 Mae'r hyn a nodir uchod yn wybyddus i staff S4C ac fe hysbysir unrhyw asiant, contractiwr neu is-gontractiwr sy'n gweithredu yn enw S4C a'r cyhoedd o hyn fel ag y bo'n briodol.

8.6 Bydd arolygu cyson i sicrhau fod anghenion Cynllun Busnes Blynyddol S4C yn cydweddu â gofynion y Cynllun hwn.

8.7 Bydd S4C yn barod i dderbyn cwynion, awgrymiadau a chynigion am welliannau mewn perthynas â'r modd y mae S4C yn ymdrin â'r cyhoedd drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg fel rhan o drefn derbyn, ateb ac arolygu cwynion arferol S4C. Gall y cyhoedd fynegi eu sylwadau yn ysgrifenedig ar ffurf llythyr, erthygl, ffacs, e-bost neu ar y rhyng-rwyd neu ar lafar dros y ffôn neu wyneb yn wyneb

8.8 Cyflwynir adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith fydd yn disgrifio'r camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn i weithredu'r mesurau yn y Cynllun hwn ac sy'n dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau a dderbyniwyd oddi wrth y cyhoedd. Bydd yr Adroddiad mewn ffurf sy'n dderbyniol i Fwrdd yr Iaith.

9. TARGEDAU

9.1 Bydd S4C yn gweithredu'r Cynllun hwn yn ffurfiol 6 mis o ddyddiad ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith yn y meysydd canlynol:

- Yr holl weithgareddau amlinellwyd yn y Cynllun hwn y mae disgwyl i staff mewnol S4C eu cyflawni wrth ymwneud â'r cyhoedd. Yn eu plith mae:

    - ymgyrchoedd hyrwyddo, cyhoeddusrwydd, cyfarfodydd cyhoeddus, trin a thrafod materion busnes a chytundebu, trefnu a chynnal digwyddiadau, ymweliadau, cyhoeddiadau, cyfathrebu, cyfarch a chroesawu, penodi, hyfforddi, gweinyddu a delio â chyflenwyr a chwsmeriaid.
    - gwaith mewnol tebyg i'r uchod a wneir yn enw S4C gan gyflenwyr allanol e.e. ymgyrchoedd hyrwyddo, cyhoeddusrwydd, digwyddiadau a.y.b

9.2 Yn achos cyflenwyr allanol sy'n gweithredu dan gytundeb pa un ai ydynt yn darparu gwasanaethau ar gyfer neu ar ran S4C mewn gweithgareddau nad yw'n rhan arferol o waith mewnol S4C byddwn yn gweithredu cyfnod o ymgynghori, annog a chymell. Lle bo cytundebau i'w hadnewyddu ar ôl cymeradwyo'r Cynllun hwn, byddwn yn gweithredu'r amserlen a ganlyn :

9.2.1 *Cwmniau sy'n gwneud Ymchwil / Darparu Holiaduron / CyflenwiYstadegau yn arbennig ar gyfer S4C lle byddan nhw'n dod i gysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd.*

- Y darpariaethau perthnasol i'w hannog i gydymffurfio â'r Cynllun hwn i fod yn eu lle ymhen 12 mis ar ôl arwyddo neu adnewyddu cytundeb a ddaw i rym ar ôl cymeradwyo'r Cynllun hwn.

9.2.2 *Cyflenwyr rhaglenni a deunydd darlledu sy'n delio â'r cyhoedd fel rhan o'u gwaith.*

- Y darpariaethau perthnasol i'w hannog i gydymffurfio â'r Cynllun hwn i fod yn ei le ymhen 12 mis ar ôl arwyddo neu adnewyddu cytundeb a ddaw i rym ar ôl cymeradwyo'r Cynllun hwn.

9.3 Bydd S4C yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n cymharu perfformiad S4C yn erbyn y safonau a osodir yn y Cynllun hwn yn yr adroddiad blynyddol yn yr un modd ac y mae eisoes yn cyhoeddi canlyniadau perfformiadau eraill.

9.4 Bydd y wybodaeth yn cynnwys:

- nifer yr ymholiadau a'r cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r modd y mae S4C yn cyfathrebu â'r cyhoedd yn Gymraeg
- ein hamseroedd ymateb o'u cymharu â'r amseroedd targed os ydynt yn wahanol i'r amseroedd ymateb yn Saesneg
- ystadegau ynglyn â staff sy'n medru cyfathrebu yn Gymraeg mewn swyddi lle mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn gymhwyster hanfodol neu'n ddymunol
- nifer staff sy'n derbyn gwersi Cymraeg

Cyhoeddusrwydd

9.5 Bydd S4C yn defnyddio ei holl ddulliau o gyfathrebu â'r cyhoedd er mwyn hysbysu ei staff, ei hasiantau, contractwyr a'i his-gontractwyr a'r cyhoedd o'r Cynllun hwn a'u hawl i gyfathrebu ag S4C yn yr iaith Gymraeg fel ag yn y Saesneg.

- Fel arfer bydd S4C yn darparu datganiadau i'r wasg, hysbysebion corfforaethol, hysbysiadau swyddogol, taflenni a.y.b
- Bydd S4C hefyd yn defnyddio dulliau electronig i drosglwyddo gwybodaeth. Gall rhain gynnwys, ffacs, e-bost, Rhyngrwyd, teletestun a thoriadau hysbysebion rhwng rhaglenni ar y sgrîn.

10. AMSERLEN

Gweithredwyd rhan helaethaf y Cynllun hwn eisioes. Cyflwynir y gweddill yn unol a'r targedau osodwyd yn y Cynllun hwn fel a ganlyn:

MESURAU	*CYFRIFOLDEB ADRAN*	*AMSERU*
1. Adolygu strategaeth a pholisiau; gosod a chyfathrebu safonau; Sefydlu systemau monitro.	Pawb	Ebrill 1998 neu 6 mis o ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun hwn pa un bynnag sydd hwyraf
2. Cyhoeddi canlyniadau monitro'r ymatebion	Corfforaethol	Blynyddol
3. Delio'n ddwyieithog â'r cyhoedd: Gohebiaeth, galwadau teliffon, dulliau electronig, cyfarchion gan y dderbynfa a'r gyfnewidfa, peiriannnau ateb	Pawb	Eisoes yn arferiad
4. Cyfarfodydd Cyhoeddus, digwyddiadau hyrwyddo, teithiau, arddangosfeydd: staff croesawu a chyfarch	Marchnata, Y Wasg Gorfforaethol, Personel a Gweinyddiaeth	Eisoes yn arferiad
5. Ateb ceisiadau penodol am gyfarfodydd busnes yn Gymraeg	Pawb	Ebrill 1998 neu 6 mis o ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun hwn pa un bynnag sydd hwyraf
6. Cyfarwyddiadau cyffredinol ac arwyddion yn yr adeiladau	Personel a Gweinyddiaeth	Eisoes yn eu lle
7. Delwedd gyhoeddus a chyhoeddiadau corfforaethol	Corfforaethol	Eisoes yn arferiad
8. Ffurflenni o bob math	Pawb	Eisoes yn arferiad
9. Datganiadau i'r wasg, cyhoeddiadau swyddogol, hysbysebion am swyddi, tendrau,a.y.b	Amryw	Eisoes yn arferiad

10. Recriwtio: ffurflenni, llythyrau cynnig a chytundebau	Personel a Gweinyddiaeth	Eisoes yn arferiad
11. Hyfforddiant: adolygu anghenion	Personel a Gweinyddiaeth	Gweithgaredd parhaus
12. Darparu canllawiau i staff	Personel a Gweinyddiaeth	Ebrill 1998 neu 6 mis o ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun hwn
13. Darparu gwasanaethau ac offer cyfieithu	Penaethiaid pob adran	
14. Offer Cyfrifiadurol	Personel a Gweinyddiaeth	Eisoes yn arferiad
15. Cyflenwyr allanol	Technoleg Gwybodaeth	Gweithgaredd parhaus
16. Sefydlu system arolygu perfformiad ar ddelio â chydymffurfio	Ymchwil Rhaglenni Comisiynu amryw	Gweler yr Adrannau ar dargedau a darparu gwasanaethau ar gyfer neu ar ran S4C gan bartion eraill
17. Cyhoeddi gwybodaeth am yr uchod.	Corfforaethol	Rhannol mewn bodolaeth a'r gweddill erbyn Ebrill 1998 neu 6 mis o ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun hwn pa un bynnag sydd hwyraf
18. Cyhoeddusrwydd am y cynllun	Corfforaethol	Blynyddol
	Y Wasg Gorfforaethol	Holl ddulliau arferol S4C i gychwyn, yna mewn taflenni ac adroddiadau o wybodaeth am S4C (gweler yr adran ar gyhoeddusrwydd)